# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Treganna

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Treganna yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae gweledigaeth glir 'Tri Treganna' yn sail gadarn i ethos yr ysgol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar les a dysgu'r disgyblion. O ganlyniad i arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth a chydweithio llwyddiannus y staff, mae disgyblion yn mwynhau profiadau dysgu cyfoethog sy'n meithrin eu hyder a'u medrau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles yn arbennig o gryf. Mae darpariaethau Cwtsh a Nyth yn cynnig cymorth sensitif i ddisgyblion, ac mae'r ymagwedd 'pum pwrpas lles' yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd yn hynod o effeithiol. Mae'r cyfleoedd hyn yn meithrin hunanddisgyblaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i adnabod blaenoriaethau gwella ac mae staff a disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon at y gwaith hwn. Mae'r ffordd synhwyrol o ddosbarthu cyfrifoldebau yn hyrwyddo darpariaeth gadarn, a defnyddir grantiau yn briodol i sicrhau profiadau teg i bob disgybl.

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cydblethu'n llwyddiannus â'r gymuned leol. Mae cyfleoedd cyfoethog i ddysgu am hunaniaeth Gymreig a'r byd ehangach, ac mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill a dealltwriaeth o werthoedd amrywiol. Ar draws yr ysgol, mae addysgu cadarn yn meithrin agweddau cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol yn llwyddiannus o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn hyrwyddo a meithrin balchder at y Gymraeg yn fwriadus, gan feithrin hyder y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau llafar mewn amgylcheddau dysgu ysgogol, ac erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n gelfydd ar draws y cwricwlwm. Mae dealltwriaeth fathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, gyda chyfleoedd priodol i gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn llwyddiannus ac yn ymateb yn brydlon; drwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn gwneud cynnydd da.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026